Enw

DARLLENWCH
Genesis 24: 28-67

Mae'r stori yma'n sôn am:
Isaac yn priodi Rebeca

Stori 4 Dewis Duw

Rhedodd Rebeca adref i ddweud wrth ei theulu beth oedd wedi digwydd.
Yna, rhedodd ei brawd, Laban, i gwrdd â'r gwas ac i'w groesawu i'w cartref.

Dywedodd y gwas wrth deulu Rebeca bod Abraham wedi rhoi tasg arbennig iddo. Dywedodd mai Duw oedd wedi'i arwain at Rebeca. Gofynnodd y teulu i Rebeca a oedd yn fodlon mynd nôl gyda'r gwas i fod yn wraig i Isaac. Dywedodd Rebeca ei bod yn fodlon mynd.

Ar ôl taith hir, daethon nhw i gartref Isaac. Cyn hir, daeth Rebeca'n wraig i Isaac. Roedd Isaac yn caru Rebeca'n fawr iawn a buon nhw'n hapus iawn am eu bod yn gwybod mai Duw oedd wedi dod â nhw at ei gilydd.

Pwy oedd Duw wedi'i dewis i fod yn wraig i Isaac? R _ _ _ _ _ .
Lliwiwch y llun a'r adnod.

"Gwyn eu byd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt."

Salm 144: 15

10

Byddwn ni'n hapus hefyd os dewiswn gael Iesu'n Waredwr ac yn Ffrind i ni.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 1 A6

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120